Roedd hi’n hwyr glas i Begw godi o’r gwely cynnes, ond ‘doedd fawr o awydd arni hi. Tynnodd ei phengliniau i fyny gan lapio ei thraed yn ei choban drwchus, gynnes.

"Begw, ty'd yn dy flaen wir, mae hi wedi troi wyth o'r gloch ac fe fyddi di'n hwyr i’r ysgol eto heddiw os na wnei di godi'n reit handi."

Mam Begw oedd yn gweiddi o waelod y grisiau. Cerddai yn ol a blaen i'r gegin i roi tro ar yr uwd yn y sosban ar y tân, rhag ofn iddo gydio.

O'r diwedd , fe gododd Begw gan hopian yn droednoeth o un droed i'r llall ar lawr oer y llofft. Aeth at y ffenest. 'Doedd dim posib gweld dim tu allan gan i'r patrymau cris-croes rhewllyd guddio pob chwarel wydr.

"Fel hyn mae hi ym Mis lonawr, ond 'sdim ots, mi g'nesa i ar ôl gwisgo amdana’.” meddyliodd wrth stryffaglio i wisgo cyn gynted a phosib.

Pan gyrhaeddodd y gegin, gwelodd danllwyth o dân coch**,** gwynias yn llosgi'n dawel yn y grât.

" Brysia i fwyta dy uwd," meddai ei mam, gan daro lwmp o fenyn a llwyaid o siwgwr yn ei lygad.

“ Mi gei di wneud brechdan grasu hefo'r fforc hir i ti dy hun, gan fod y tân mor goch."

Llowciodd Begw yr uwd ac eisteddodd ar stôl drithroed yn crasu'r frechdan uwchben y tân eirias.

"Be' sydd i swper chwarel heno mam?" gofynnodd yn freuddwydiol

"Lobscows hefo'r cig oen," atebodd ei mam?, "mi fydd 'na ddigon o ll'gada ynddo fo."

"Be 'di ll'gada mewn lobscows?" gofynnodd Begw.
"Wel y cig a'r brasder sydd yn creu swigod bach, a rheiny sydd fel ll'gada yn sgleinio." atebodd ei mam.

"Mae Winni yn deud fod ei mam hi yn gallu g'neud lobscows dall, ac ma' isho bod yn glyfar iawn iawn i wneud hwnnw, medda' Winni."

"Ydi mwn," meddai ei mam, "lobscows heb gig ydy hwnnw, heb ll'gada, ti'n gweld ."

"Dydy'r lobscows ddim yn gallu gweld chwaith!" meddai Begw'n gellweirus.

"Wps! Fy mrechdan grasu i .....mae hi wedi disgyn i'r tân!"
Neidiodd Begw ar ei thraed gan syllu'n hurt i'r tân, a'r fforc yn wag yn ei llaw. Duodd y tan coch, a chododd mwg du. wrth i'r menyn yn y frechdan ffrio a llosgi yn y gwres.

"Dyna ti wedi g'neud llanast go iawn rwan. Ty'd, 'does dim amsar i wneud un arall. Rhaid i ti fynd i'r ysgol heb dy frechdan grasu."

Roedd mam yn flin, sychodd wyneb Begw yn frysiog, a thynnodd grib yn wyllt trwy ei gwallt cyn ei glymu'n dynn ar ei chorun.

"Thâl hi ddim i hel meddylia' a breuddwydio uwchben y tân ben bore w'sti," meddai reit swta.

Bu Begw yn blysio ac yn meddwl am y frechdan grasu nôl a blaen drwy'r dydd, ond 'doedd dim iws, roedd hi wedi hen losgi.

Ymhen hir a hwyr daeth yn amser troi am adref o'r ysgol. Wrth gerdded linc- di- lonc ar hyd y ffordd gul, meddyliodd am y lobscows a'r llgada ynddo fo fyddai i swper chwarel. Cododd y glicied i agor drws y cefn, daeth arogl arall i'w ffroenau.

'M- m-m-m' meddai," mae mam yn crasu cacan gri i de !"

Llonnodd drwyddi. Gwelai ei mam yn crasu'r cacennau bach crynion fesul hanner dwsin ar radell haearn ar y pentan.
Aeth siom o golli'r frechdan grasu yn llwyr o gof Begw. Eisteddodd, cyn tynnu ei chot, i flasu'r gacen gri frau, gynnes.
'Un dda ydi mam," meddyliodd Begw, "mae hi'n glyfar iawn, yn gallu gwneud cacan gri a lobscows run pryd,"

Geirfa - Brechdan Grasu

Cydio - yr uwd yn "cydio yng ngwaelod y sosban" hynny yw yn glynu a llosgi.

Chwarel o wydr - rhan wydr o'r ffenest

Brechdan Grasu – tôst tenau gyda menyn arno. Wedi ei blygu yn ei hanner, fel arfer.

Swper chwarel – pryd bwyd min nos.

Lobscows - cawl gyda llysiau a chig.

Lowscows dall - cawl gyda llysiau heb gig.

Cacen Gri - Teisennau bach crwn fel bisgedi gyda chyrens ynddyn' nhw

Pwyntiau trafod:

1. Oerni yn y llofft. pam? Dim gwres canolog?
2. Y patrwm rhewllyd ar y ffenest? Dim gwydr dwbwl yn y ffenestri?
3. Cyferbynu'r llofft oer a'r gegin groesawus.
4. Pam roedd y gegin yn groesawus? Tan cynnes, coch yn rhoi gwres a golau ar fore oer o fis lonawr.
5. Brecwast - bwyd cynnes uwd,te, brechdan grasu.
6. Sgwrs amser brecwast - dim teledu na radio i chwalu ar feddyliau ben bore.